

W935 S. 104

AWDL ARWEST,

ER COFFADWRIAETH

AM Y DIWEDDAR BARCHEDIG

JOHN JONES,

CURAD FFYDDLON MERTHYR-TUDFUL;

UN O DESTUNAU

Cymreigyddion yr Alarch,

Erbyn eu Cylchwyl Mai 22, 1839,

Am ba un y derbyniodd yr Awdwr Ariandlws o werth 2 Gini, yn nghyd a Gwobr o 3 Gini, rhodd Eglwysgor gynt y gwr duwiol enwedig.

MERTHYR-TUDFUL:

ARGRAFFWYD GAN H. W. WHITE.

1839.

X205311023

Accessions No.	15257
Class No.	p WG 16.12

AWDL ARWEST.

Mesur, "GWEL YR ADEILAD."

1

OCH! alar trwm; och! wylo,
 Oeh! adfyd tristfyd drosto,
 Nes duo 'n daear;
 Niwl du, o anial diro'dd
 Hen angau'n donau daenodd
 Dros JONES, wr dengar.
 Chwith yw na fuasai 'nawr yn fyw,
 I roi cynghorion,
 Pregethau coethion,
 Gweddiau taerion,
 Rhwydd haelion ar ei Dduw,
 O du holl bechaduriaid,
 Trueiniaid o bob rhyw.
 Tra fu yn llywio uwch y llu,
 Fel byddai'n chwennych,
 Gwnai'r dorf i edrych
 I fynu'n fynych,
 Ac hoywych agwedd cu;
 Pryd arall, wylo dagrau,
 Yn dyrrau o bob tu.

2.

Nid rhyfedd fod hir afar,
 Uchel-gwyn anochelgar,
 Trwy'r De' a'r Dwyrain,
 Ar ol y Cymro haelwedd;
 Ei rodiad fu'n anrhydedd,
 A mawredd mirain:
 I'n gwlad, a'i fawrlwydd Eglwys fad,
 E ddarfu'n ddiau
 Ddefnyddio'n forau
 Ei lawn dalentau,
 A rhoes brawfiadau'n rhad
 O'i fawrddysg, a'i addfwynder,
 I lawer, er gwellhad.
 Prudd! prudd! fu diwedd chwerw'r dydd



Y rhoed ei gorphyn,
 Y'ngwydd y werin,
 I lwch y dyffryn,
 Pob dyn oedd wleb ei rudd,
 Wrth adael ar oer waelod
 Y beddrod gymaint budd.

Mesur y "TRI THRAWIAD."

1.

Ei anwyl blant heini
 O'r achos sy'n ochi,
 'Does llanerch i'w lloni, waith colli eu car;
 A'i weddw fwyneiddgu,
 Oedd iachus, sy'n nychu,
 Yn gwlychu ei gwely'n ei galar!

2.

Och! unwedd uchenaid
 Y weddw, yr ymddifaid,
 Y cloffion, byddariaid, dieithriaid, a'r dall,
 Ar ol eu cynhaliwr
 Mwyn addas, a'u noddwr,
 Eu twr, a'u golygwr goleugall.

3.

Tra fu ar y ddaear
 I'r unig a'r anwar,
 A'i lais ewyllysgar, ufuddgar a fu,
 A'i daer-waith hyderus
 Oedd troi'r pechadurus,
 Yn barchus, gariadus, i gredu.

4.

Ei dêr iaith oedd dirion
 Ar ran pererinion;
 Taranai fygythion ar ddynion di-Dduw;
 Amlygai'n hael agwedd,
 Y sawl â'r gwir sylwedd;
 A thuedd ddirinwedd yr annuw.

5.

Ei raddol geryddon,
 Ei araf gynghorion,
 Nefolaidd awelon ei dirion lais dwys;
 Ac hoywddoeth agweddiad,
 Oe'nt erfawr gynhyrfiad,
 A thês perarogliad i'r eglwys.

Mesur y "GALON DROM."

1.

Clod, na golud, ynfyd anfoes,
Ni fyfyriond hyd ei fer-oes,
Dros wir achos ION ymdrechodd,
Rhwng y sofr a'r tân safodd,
Yn gysurus am drysorau

Y wlad nefol

Dda, ddymunol, ddiddamweiniau;
Doeth erioed a da'i weithredoedd,
Noddwr ffyddlon
I dylodion, duwiol ydoedd.

2.

Wyla! Sion: Pwy, ysywaeth!
Sych dy ddagrau oriau hiraeth?
Pwy mor rwydd ei ymadroddion
I wir annereh y ION union?
Fel ryw hynod dafoed dwyfol,

Drychfeddyliau,

Uwch law doniau cyffredinol,
A gras hael-Dduw'r tragwyddoldeb,
Wrth lafaru,

Yn tywynu yn ei wyneb!

3.

Wele! hir-nos per galarnad,
Wedi dryllio nwyd yr holl-wlad;
Aeth ein mwyngu JONES gymengall,
Drwy waelderau i wlad arall,
Lle'r awn ninau oll yr unwedd,

Ryw ddiwrnod,

Dan oer dywod,—dyna'r diwedd.—
Nerth i foli Duw'n ofalus;

Gras a deall,

Ac oes arall fwy cysurus.

Gan HIRAETHLAWN.

SEF,

EDWARD WILLIAMS, (IOLO MYNWI.)

Hon a farnwyd yn fuddugawl.